**RHIF YR EITEM AR Y RHAGLEN**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD** | **CYFARFOD Y BWRDD COMISIYNWYR / CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD** | 26 EBRILL 2011 & 12 MAI 2011 |
| **PWNC** | RHODDION A LLETYGARWCH – PROTOCOL I AELODAU AC AELODAU CYFETHOLEDIG |
| **DEILYDD(ION) PORTFFOLIO** | MICK GIANNASI |
| **SWYDDOG(ION) ARWEINIOL** | LYNN BALL, SWYDDOG MONITRO |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | MEIRION JONES, CYFREITHIWR Y SWYDDOG MONITRO (EST: 2563) |

**1. Cadarnhewch natur yr adroddiad os gwelwch yn dda trwy glicio un o'r blychau isod**

Er gwybodaeth……….. ☐
Gweithredol……….…... ☒
Strategol………………. ☐

**2. Rheswm/Rhesymau pam fod angen penderfyniad gan y Comisiynwyr**

Mae'r Cyfansoddiad yn datgan "ni fydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo newidiadau i'r Cyfansoddiad hyd oni fydd y Pwyllgor gwaith wedi ystyried y cynnig...". Wrth gwrs bydd y newidiadau arfaethedig, gydag unrhyw sylwadau gan y Cyngor, yn gorfod cael eu cyfeirio i'r Gweinidogion Cymreig am benderfyniad.

**3. Crynodeb o'r adroddiad**

Cyflwyno Protocol ar Roddion a Lletygarwch fel arweiniad i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig.

**4. Argymhelliad/Argymhellion a'r rhesymau**

Gofynnir i'r Comisiynwyr argymell i'r Cyngor ac i'r Gweinidogion Cymreig gymeradwyo'r Protocol yn Atodyn 2 a'r Ffurflen Datganiad yn Atodyn 3 ac i gymeradwyo eu hychwanegu at Gyfansoddiad y Cyngor yn 5.9 ac i awdurdodi swyddogion i wneud unrhyw newidiadau ôl-ddilynol i'r Cyfansoddiad.

**5. Opsiynau eraill a'r rheswm/rhesymau dros eu gwrthod**

Peidio â chyflwyno arweiniad. Sut bynnag, cytunwyd gan y Cyngor i gyflwyno arweiniad fel rhan o Raglen Waith y Pwyllgor Safonau.

**6. Ymgynghori**

6.1 Cyllid/Adran 151……................................ ☐ do……….☒ naddo
6.2 Swyddog Cyfreithiol/Monitro…………….... ☒ do……….☐ naddo
6.3 Adnoddau Dynol……………....................... ☐ do……….☒ naddo…….☐ amherth
6.4 Gwasanaethau Eiddo…………………….... ☐ do……….☒ naddo…….☐ amherth
6.5 Uned Gyfathrebu……................................ ☐ do……….☒ naddo
6.6 Rhai eraill yr ymgynghorwyd â nhw (yn cynnwys aelodau):

**7. Unrhyw faterion Fframwaith Polisi**

Na

**8. Materion Amgylcheddol**

A yw'r mater / eitem yn ymwneud â:

1. Bywyd gwyllt (bioamrywiaeth) o dan Adran 40 Deddf yr Amgylchedd Naturiol …………☐ do……. ☐ naddo ….☒ amherth a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006*

2. Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Ynys Môn o dan Rhan 85 o'r Deddf ……..☐ do…….☐ naddo …. ☒ amherth Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRoW) 2000**

(*Gall Gynghorydd Ecolegol ac Amgylcheddol roi cyngor: est. 2470)
(**Gall Swyddog Cefn Gwlad ac AHNE roi cyngor: est. 2429)
Nodiadau

**9. Papurau cefndirol**

Papurau i'r Cyngor Sir ac i'r Pwyllgor Safonau.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | CYNGOR SIR |
| **DYDDIAD:** | 9 RHAGFYR 2010 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | TERFYN ARIANNOL AR GYFER DERBYN RHODDION |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | I'R CYNGOR YSTYRIED A DDYLID NEWID Y TERFYN CYFREDOL |
| **ADRODDIAD GAN:** | CADEIRYDD Y PWYLLGOR SAFONAU |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | SWYDDOG MONITRO |

Ynghlwm wrth yr adroddiad hwn mae:

1. Llythyr a anfonwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau, dyddiedig 22 Gorffennaf 2010, at bob Aelod o'r Cyngor Sir gyda chopïau i'r Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro a'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol (96898) (**Atodiad 1**)
2. Matrics o'r ymatebion gan Aelodau (106191) (**Atodiad 2**)
3. Matrics yn dangos y sefyllfa mewn Cynghorau eraill yng Nghymru (106118) (**Atodiad 3**)
4. Cofnodion drafft y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 14 Medi 2010 – mae eitem 6 yn berthnasol (**Atodiad 4**)

Mae'r Pwyllgor Safonau wedi bod yn adolygu'r mater Rhoddion a Lletygarwch, fel rhan o'r Rhaglen Waith barhaus a gyflwynwyd i'r Cyngor Sir ar 4 Mawrth 2010.

Yn dilyn trafodaeth anffurfiol yn y Pwyllgor Safonau, anfonwyd llythyr at yr holl aelodau (**Atodiad 1**) yn gofyn am eu barn ynghylch y lefel briodol ar gyfer derbyn rhoddion. Mae'r ymatebion a gafwyd ynghlwm (**Atodiad 2**).

O'r 16 o Gynghorwyr a ymatebodd, roedd 5 yn cefnogi'r status quo h.y. cadw'r terfyn cyfredol o £20. Dywedodd 2 y byddent o blaid codi'r trothwy cyfredol; 1 i £30 a'r llall i

£40.  Fodd bynnag, dywedodd 9 o aelodau eu bod o blaid gosod trothwy uchaf o sero ar gyfer rhoddion.

Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) fel un o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw, yn cefnogi'r trefniadau cyfredol a dywedodd, yn ei farn ef, y byddai gostwng y lefel i sero yn anymarferol.

Mae **Atodiad 3** yn nodi'r sefyllfa mewn Cynghorau eraill yng Nghymru (a thri chorff cyhoeddus arall).  Fe wêl yr Aelodau, o'r rheini a ymatebodd, bod 2 Gyngor Sir arall (sef Sir Ddinbych a Merthyr Tudful) wedi gosod terfyn o sero.  Mae gan bawb arall a ymatebodd drothwy uwch eisoes na Chyngor Sir Ynys Môn, ac eithrio Rhondda Cynon Taf sydd gyda throthwy o £20 hefyd a Chyngor Sir Wrecsam sydd gyda throthwy o £10 ar hyn o bryd.

Rhoddodd y Pwyllgor Safonau sylw ffurfiol i'r mater hwn ar 14 Medi 2010 pryd cytunwyd y dylid cyflwyno argymhelliad i'r Cyngor Sir fel sydd wedi ei ddisgrifio'n fanwl yn eitem 4 **Atodiad 4.**

Yn gryno, er nad oedd sgriwtini'r Pwyllgor Safonau o Gofrestr y Cyngor o Roddion a Lletygarwch wedi nodi unrhyw achosion o bryder, a chan gymryd i ystyriaeth yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghori, oherwydd rhesymau canfyddiad y cyhoedd ac enw da'r Cyngor, roedd y Pwyllgor o blaid gosod trothwy o sero o ran gwerth uchaf unrhyw roddion y mae aelodau yn eu derbyn.

Fodd bynnag, mater i'r Cyngor Sir yw gwneud y penderfyniad terfynol ac, yn amodol ar y penderfyniad hwnnw, bydd y Pwyllgor Safonau yn datblygu canllawiau ar gyfer Rhoddion a Lletygarwch, a bydd yn ymgynghori ar y ddogfen gydag Aelodau a Swyddogion, cyn cwblhau'r canllawiau yn derfynol ac argymell eu mabwysiadu yn y cyfarfod cyffredinol nesaf o'r Cyngor Sir.

**Argymhelliad**

Gofynnir yn garedig i'r Aelodau benderfynu a ddylid:-

1. Cefnogi argymhelliad y Pwyllgor Safonau ac ailbennu'r trothwy uchaf ar gyfer derbyn rhoddion fel sero.

**NEU**

2. Cadarnhau eich bod yn dymuno cadw'r trefniadau cyfredol, sef bod trothwy uchaf ar gyfer derbyn rhoddion yn aros fel £20.

**NEU**

3. Cynyddu'r trothwy o £20 i swm arall i'w gytuno arno gan yr holl Aelodau neu fwyafrif ohonynt.

**ATODIAD 1**

**ADRAN RHEOLWR GYFARWYDDWR/**
**DEPARTMENT OF THE MANAGING DIRECTOR**

**JEFF COTTERELL**
**CHAIR OF THE STANDARDS COMMITTEE**

CYNGOR SIR YNYS MON /
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir / Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn / Anglesey
LL77 7TW

DX: 701771 – LLANGEFNI

ffôn / tel: (01248) 752586
ffacs / fax: (01248) 752132

E-Bost – E-mail:

Ein Cyf – Our Ref.
Eich Cyf – Your Ref.

I'r holl Gynghorwyr a chopi i'r Rheolwr-gyfarwyddwr dros dro a Cyfarwyddwyr Corfforaethol

To all County Councillors with copies to the Interim Managing Director & Corporate Directors

22 Gorffennaf / July, 2010

Annwyl Gynghorydd

**YNG.: RHODDION A LLETYGARWCH**

Fel rhan o'i raglen waith am 2010/11, mae'r Pwyllgor Safonau wedi rhoi sylw anffurfiol i faterion rhoddion a lletygarwch.

Ar hyn o bryd, caniateir i gynghorwyr dderbyn rhoddion hyd at werth o £20. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Safonau yn debygol o argymell na chaniateir i gynghorwyr dderbyn unrhyw roddion, waeth beth fo'u gwerth.

O ran lletygarwch, mae'r Pwyllgor Safonau yn credu bod lletygarwch priodol yn dderbyniol, ar yr amod y gwneir datganiadau ffurfiol. Mewn geiriau eraill, dim newid i'r trefniadau cyfredol. Serch hynny, mae'n debygol y bydd y Pwyllgor Safonau yn cyhoeddi canllawiau ar letygarwch a ganiateir.

Yn y cyfamser, bydd y Pwyllgor Safonau yn rhoi rhagor o sylw i'r mater rhoddion i gynghorwyr, pan fydd yn cyfarfod yn ffurfiol ar 14 Medi 2010. I hwyluso'r drafodaeth honno, byddai'r Pwyllgor yn dymuno gofyn am farn gynghorwyr ar dderbyn rhoddion. Yn sylfaenol, mae tri opsiwn:

Dear Councillor

**RE: GIFTS AND HOSPITALITY**

As part of its work programme for 2010/11, the Standards Committee has given informal consideration to the issue of gifts and hospitality.

At present, councillors are permitted to accept gifts up to a value of £20. However, the Standards Committee is likely to recommend that councillors shall not be permitted to accept any gifts, regardless of value.

As far as hospitality is concerned, the Standards Committee believes that appropriate hospitality is acceptable, subject to formal declarations being made. In other words, no change to the current arrangements. It is likely, though, that the Standards Committee will publish guidance on permissible hospitality.

In the meantime, the Standards Committee will give further consideration to the acceptance of gifts by councillors, when it meets formally on 14th September 2010. To inform that discussion, the Committee would like to canvass the views of councillors on the issue of gifts. In essence, there are three

options:

1. Parhau gyda'r trefniadau cyfredol

2. Cynyddu, neu ostwng yr uchafswm cyfredol, sef £20.

3. Pennu uchafswm o sero.

I gynorthwyo'r Pwyllgor Safonau i lunio ei argymhellion terfynol byddwn yn ddiolchgar pe baech yn dychwelyd y llythyr dyblyg sydd ynghlwm, yn yr amlen bwrpasol, gan nodi pa un o'r tri opsiwn yr ydych yn ei ffafrio. Os byddai'n well gennych ddilyn yr ail opsiwn nodwch os gwelwch yn dda a ydych yn credu y dylid cynyddu neu ostwng y lefel gyfredol ac i ba swm.

Yn ogystal â nodi'r hyn fyddai orau gennych chi, byddwn yn ddiolchgar pe baech hefyd yn cyflwyno unrhyw resymau / rhesymeg i gefnogi eich safbwyntiau er mwyn cynorthwyo ein trafodaethau ar y mater hwn.

Byddai o gymorth mawr pe baech yn gallu ymateb os gwelwch yn dda erbyn dim hwyrach na dydd Gwener 20 Awst 2010.

Unwaith y bydd y Pwyllgor Safonau wedi dod i farn ffurfiol ar 14 Medi 2010 bydd yn cyflwyno ei argymhellion i'r Cyngor llawn gan mai ef fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

Mawr ddiolch i chi am eich cymorth.

Yr eiddoch yn gywir

1. To continue with the present arrangements

2. To increase, or decrease, the current £20 maximum

3. To set the maximum at zero.

To assist the Standards Committee in formulating its final recommendation we would be grateful if you would return the attached duplicate letter, in the prepaid envelope, indicating which of the three options you would favour and, if you favour the second option, please state whether you think the current level should be increased or decreased and to what level.

In addition to expressing your preference, I would be most grateful if you could also provide any reasons/rationale in support of your viewpoint in order to assist our deliberations in this matter.

It would be most helpful if you could please respond by no later than Friday 20th of August 2010.

Once the Standards Committee has reached a formal view on the 14th September 2010 it will make its recommendations to the full Council, with which the final decision rests.

Many thanks for your assistance.

Yours sincerely

Jeff Cotterell
Cadeirydd, Pwyllgor Safonau, Ynys Môn
Chair, Standards Committee, Ynys Môn

**ATODIAD 2**

## RHODDION A LLETYGARWCH

## GIFTS AND HOSPITALITY

Ymateb i lythyr 22/7/2010 – Response to letter of 22/7/2010

| Cynghorydd Councillor | Opsiwn 1 / Option 1 | Opsiwn 2 / Option 2 | Opswin 3 / Option 3 | Sylwdau / Comments |
|---|---|---|---|---|
| | | ✓ £30 | | ✓ |
| | ✓ | | | ✓ |
| | | | ✓ | |
| | | | ✓ | ✓ |
| | | | ✓ | ✓ |
| | | | ✓ | ✓ |
| | ✓ | | | ✓ |
| | | | ✓ | ✓ |
| | | ✓ £40 | | ✓ |
| | | | ✓ | ✓ |
| | | | ✓ | ✓ |
| | | | ✓ | ✓ |
| | ✓ | | | ✓ |
| | | | ✓ | |
| | ✓ | | | ✓ |
| | ✓ | | | ✓ |

**ATODIAD 3**

| **AUTHORITY** | **FINANCIAL THRESHOLD AS AT MAY 2008** | **WHETHER GIFTS DECLINED NEED TO BE REPORTED** ☑ or X |
|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 30.00 | X |
| Bridgend | | |
| Caerphilly | 25.00 | ☑ |
| Cardiff | 25.00 | X |
| Carmarthenshire | 25.00 | X |
| Ceredigion | 21.00 | X |
| Conwy | 25,00 | |
| Denbighshire | Nil | |
| Flintshire | 10.00 | X |
| Gwynedd | 25.00 | |
| Isle of Anglesey | 20.00 | x |
| Merthyr Tydfil | Nil | X |
| Monmouthshire | 25.00 | X |
| Neath Port Talbot | | |
| Newport | 80.00 | X |
| Pembrokshire | 25.00 | Encouraged |
| Powys | | |
| Rhondda Cynon Taff | 20.00 | / |
| Swansea | | |
| The Vale of Glamorgan | 50.00 Gifts<br>25.00 Hospitality | |
| Torfaen | 25.00 | Encouraged but not required |
| Wrexham | 10.00 | Encouraged |
| South Wales Fire Service | 25.00 | Recommended |
| Mid & West Wales Fire Service | 25.00 | |
| Pembrokeshire Coast National Park | 25.00 | |

**ATODIAD 4**

wrth yr aelodau bod Mr Ian Bottrill, ymgynghorydd a gyflogwyd gan y Cyngor yn gweithio ar hyn o bryd ar ddrafftio protocolau i aelodau a fydd yn cynnwys proses ar gyfer adrodd yn ôl ac y gallai'r Pwyllgor Safonau gael copi o'r protocolau drafft diweddaraf.

**Penderfynwyd -**

- **Rhoddi i aelodau'r Pwyllgor Safonau y protocolau drafft diweddaraf a baratowyd gan yr Ymgynghorydd gan gynnwys protocol ar gyfer trefniadau adrodd yn ôl gan aelodau etholedig.**
- **Edrych ar gofnodiadau presenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd o'r Cyngor, y Pwyllgor Gwaith, y Pwyllgorau Rheoleiddio a Sgriwtini dros gyfnod o amser ac ystyried y canfyddiadau yn y cyfarfod anffurfiol priodol nesaf.**

## 6 DATGANIADAU AELODAU YNGLYN Â RHODDION A LLETYGARWCH - DRAFFT O BROTOCOL A DRAFFT O FFURFLEN DDATGAN

Cyflwynwyd y dogfennau a ganlyn i'r aelodau eu hystyried -

- Protocol drafft i aelodau ac aelodau cyfetholedig mewn perthynas â derbyn rhoddion a lletygarwch.
- Ffurflen ddrafft i aelodau ac aelodau cyfetholedig ddatgan cynigion a chofnodi derbyn/gwrthod rhodd ac/neu letygarwch.
- Copi o lythyr dyddiedig 22 Gorffennaf, 2010, gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau i gynghorwyr yn mofyn eu sylwadau ar faterion rhoddion ac a fyddai'n well ganddynt barhau gyda'r trefniadau cyfredol; a oeddynt yn dymuno codi neu ostwng y trothwy cyfredol o £20, ac os oeddynt, gan faint neu a oeddynt yn ffafrio gosod isafswm o sero.
- Matrics o ymatebion gan gynghorwyr. (Cafodd matrics estynedig o ymatebion ei gylchredeg i aelodau yn dilyn cyhoeddi'r rhaglen).
- Holiadur ar lefel Cymru Gyfan gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y Protocol a'r Ffurflen ddrafft. Gofynnwyd hefyd iddynt ystyried y naill elfen a'r llall, rhoddion a lletygarwch. Dywedwyd wrth yr aelodau, er y bydd sylwadau'r Pwyllgor ar y mater yn cael eu cyfleu i'r Cyngor Sir pan fydd yn trafod y mater yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr, mai'r Cyngor Sir ac nid y Pwyllgor Safonau fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

Yn fyr, ailadroddodd y Cadeirydd y cefndir i'r mater uchod er budd aelodau'r Pwyllgor cyn iddynt wneud argymhelliad terfynol i'r Cyngor a dywedodd, ar adeg trafod yn anffurfiol fater rhoddion a lletygarwch, bod y Pwyllgor, yng nghyswllt derbyn rhoddion, â'i fryd ar argymell gosod trothwy o sero, sef na fyddid yn caniatáu i aelodau etholedig dderbyn unrhyw roddion. Mewn perthynas â lletygarwch, roedd y Pwyllgor o'r farn bod lletygarwch priodol yn dderbyniol ac na ddylid newid y trefniadau cyfredol. Roedd wedi ysgrifennu at aelodau etholedig ar 22 Gorffennaf yn gofyn iddynt ddweud pa opsiwn yr oeddynt yn ei ffafrio o'r tri mewn perthynas â rhoddion fel y cyfeirir at hynny yn y rhestr o atodiadau uchod.

Dywedodd y Swyddog Monitro, o'r 16 o gynghorwyr a oedd wedi ymateb gyda'u sylwadau ar y mater, roedd pump yn cefnogi cadw pethau fel y maent (sef cadw'r isafswm cyfredol o £20); roedd dau wedi dweud eu bod yn ffafrio codi'r trothwy cyfredol - y naill i £30 a'r llall i £40; ac roedd naw yn cytuno y dylid gosod uchafswm o sero. Aeth y Swyddog Monitro yn ei blaen i gynghori'r Cyngor bod angen i'r Pwyllgor, yn wyneb y wybodaeth a dderbyniodd o ganlyniad i'r ymgynghori, wneud argymhelliad ffurfiol ynglyn â'r trothwy i'w osod mewn perthynas â derbyn rhoddion a hefyd i fynegi barn ynghylch a ddylid gofyn i aelodau etholedig ymestyn eu datganiad i gynnwys rhoddion a gynigiwyd ond a wrthodwyd. Fodd bynnag, ni fydd modd i'r Pwyllgor roddi unrhyw sylw pellach i'r protocol drafft hyd oni fydd y Cyngor Sir wedi gwneud penderfyniad ynglyn â rhoddion yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at lythyr gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid a gylchredwyd i aelodau'r Pwyllgor Safonau yn mynegi barn bod gosod trothwy o sero yn anymarferol oherwydd y byddai'n

codi cwestiynau ynglyn â rhoddion o werth bychan iawn. Er ystyried a nodi barn y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid roedd y Pwyllgor yn parhau i fod o'r farn bod gosod trothwy o sero yn egluro'r sefyllfa mewn perthynas â rhoddion ac yn gwneud i ffwrdd ag unrhyw amheuaeth. Gan gyfeirio at fater rhoddion a gynigiwyd ond na chawsant eu derbyn, roedd yr aelodau o'r farn y byddai gofyn i aelodau ddatgan rhoddion a gynigiwyd iddynt ond a wrthodwyd yn creu gwaith papur dianghenraid. Dywedodd y Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro mai maintais sôn am roddion a gynigiwyd ond na chawsant eu derbyn yw bod yr Awdurdod yn ymwybodol wedyn bod y cynnig wedi'i wneud. Dywedodd Mr Raymond Evans nad yw'r ffaith bod dim angen i aelodau ddatgan cynnig o rodd yn rhwystro aelod unigol rhag sôn am gynnig o'r fath os ydyw ef/hi yn credu bod hyn wedi peryglu ei sefyllfa.

Yn nhermau lletygarwch, dywedodd y Cadeirydd bod y Pwyllgor wedi cytuno yn anffurfiol bod lletygarwch priodol sef lletygarwch sy'n ymwneud â busnes yr awdurdod, yn dderbyniol. Cafwyd peth trafodaeth ynghylch amgylchiadau lle caiff lletygarwch ei gynnig a'i dderbyn a all fod yn achlysur lle rhoddwyd rhybudd ymlaen llaw neu a all fod yn ddirybudd ei natur. Nodwyd hefyd bod aelodau etholedig yn ffigyrau cyhoeddus sydd oherwydd natur eu swyddi, yn cael gwahoddiad i ddigwyddiadau i ddatblygu eu gwaith ac awgrymwyd na ddylid cyfyngu yn ddianghenraid ar yr agwedd hon o letygarwch.

Roedd y Swyddog Monitro yn cynghori'r Pwyllgor i ystyried gohirio trafod mater lletygarwch hyd oni fydd y Cyngor wedi ystyried ac wedi gwneud penderfyniad ar argymhelliad y Pwyllgor mewn perthynas â rhoddion. Petai'r Cyngor yn penderfynu bod derbyn rhoddion hyd at werth penodol yn beth i'w ganiatáu, yna gellid rhoddi sylw i fater lletygarwch gyda hynny mewn un protocol. Atgoffodd aelodau bod y protocol drafft yn dweud na ddylid derbyn lletygarwch oni bydd mantais gymesur i'r awdurdod ac awgrymodd bod angen edrych ar y mater yn fanylach unwaith y bydd sefyllfa'r Cyngor ynghylch rhoddion yn glir yn dilyn ei gyfarfod yn Rhagfyr. Roedd yr aelodau'n cytuno bod angen rhoddi sylw manwl pellach i'r nifer o agweddau ar letygarwch.

**Penderfynwyd -**

- **Argymell i'r Cyngor Sir:**
    - **Gosod y trothwy ariannol ar gyfer derbyn rhoddion yn sero sef na ddylid caniatáu i aelodau etholedig a chyfetholedig dderbyn unrhyw roddion o gwbl.**
    - **Ni fydd unrhyw ofyniad ffurfiol ar aelodau etholedig a chyfetholedig i ddatgan cynigion o roddion na chawsant eu derbyn.**

- **Rhoddi sylw pellach manylach i fater lletygarwch yn dilyn penderfyniad y Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr ynglyn â'r argymhellion uchod mewn perthynas â rhoddion.**

## 7 CYNHADLEDD PWYLLGOR SAFONAU CYMRU - CAERDYDD 14 HYDREF 2010

Cyflwynwyd e-bost yn gwahodd sylwadau ar faterion yn ymwneud â chynllunio a threfnu'r gynhadledd uchod i sylw'r aelodau. Nodwyd y wybodaeth.

## 8 CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR SAFONAU

Cytunwyd y cynhelir y cyfarfod anffurfiol nesaf ar 12 Hydref a'r pwyllgor ffurfiol nesaf ar 14 Rhagfyr, 2010.

**Mr Jeffrey Cotterell (Cadeirydd)**

## 1. Cyflwyniad a chefndir

1.1 Mae'r Pwyllgor Safonau wedi bod yn adolygu'r mater Rhoddion a Lletygarwch, fel rhan o'i Raglen Waith barhaus a gymeradwywyd gan y Cyngor Sir.

1.2 Yn dilyn trafodaeth anffurfiol yn y Pwyllgor Safonau, anfonwyd llythyr at yr holl Aelodau ar 22 Gorffennaf 2010 yn gofyn am eu barn ynghylch y lefel briodol ar gyfer derbyn rhoddion. Ymatebodd 16 Cynghorydd a hefyd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) a rhoddwyd ystyriaeth i'r ymatebion hynny ac i'r sefyllfa yng Nghynghorau eraill Cymru.

1.3 Rhoddodd y Pwyllgor Safonau sylw ffurfiol i'r mater hwn ar 14 Medi 2010, pryd cytunwyd y dylid cyflwyno argymhelliad i'r Cyngor Sir ac am resymau canfyddiad cyhoeddus ac enw da, gwell oedd gan y Pwyllgor i ailosod yr uchafswm gwerth a ganiateir i dderbyn rhoddion gan Aelodau yn 'dim'. Cyflwynwyd adroddiad ar ran y Pwyllgor Safonau, gan ei Gadeirydd, i'r Cyngor ar 9 Rhagfyr 2010, ac fe'i cyflwynir fel **Atodyn 1**.

1.4 Wrth gwrs yr adeg honno roedd y penderfyniad terfynol gyda'r Cyngor Sir ac fe benderfynwyd yn ei gyfarfod ar 9 Rhagfyr 2010 "bod y Cyngor yn cadarnhau ei fod yn dymuno cadw'r trefniant presennol, sef, y bydd uchafswm y trothwy ar gyfer derbyn rhoddion yn parhau ar £20". Roedd y Cyngor wedi gosod yr uchafswm o £20 ar 18 Rhagfyr 2001.

1.5 Yn dilyn y Cyfarwyddyd ar 16 Mawrth 2011 bellach dim ond y Gweinidogion Cymreig fedr wneud penderfyniad i newid Cyfansoddiad y Cyngor. Gofynnir i'r Comisiynwyr wneud argymhellion i'r Cyngor ac/neu'r Gweinidogion Cymreig, a gofynnir i'r Cyngor gadarnhau'r argymhellion hynny a gwneud unrhyw sylwadau pellach. Bydd yr argymhellion a'r sylwadau hynny yn cael eu cyflwyno i'r Gweinidogion Cymreig gyda chais iddynt wneud penderfyniad.

## 2. Y Côd Ymddygiad

2.1 Mae’r Côd Ymddygiad yn 5.1 yn y Cyfansoddiad yn cyfeirio at “Cofrestru Rhoddion a Lletygarwch”. Mae paragraff 17 yn datgan fel a ganlyn:-

“Rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl i chi gael unrhyw rodd, lletygarwch, buddiant materol neu fantais faterol, sy’n fwy na gwerth a bennir mewn penderfyniad gan eich awdurdod, ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod yn nodi bodolaeth a natur y rhodd honno, y lletygarwch hwnnw, y buddiant materol hwnnw neu’r fantais faterol honno.”

2.2 Ar hyn o bryd mae “gwerth” yn £20. Felly os ydyw gwerth “rhodd, lletygarwch, buddiant materol neu fantais faterol o dan £20 nid oes rhaid ei gofrestru hefo’r Swyddog Monitro. Os ydyw yn £20 neu uwch mae’n rhaid cofrestru’r “rhodd, lletygarwch, buddiant materol neu fantais faterol” hefo’r Swyddog Monitro. Mae hyn yn golygu y gall Aelod dderbyn “rhodd, lletygarwch, buddiant materol neu fantais faterol” sy’n werth £20 neu fwy ond mae’n rhaid iddynt gael eu cofrestru.

**3. Protocol**

3.1 Mynegwyd yn yr Adroddiad i’r Cyngor ar 9 Rhagfyr y byddai Arweiniad yn cael ei baratoi. Roedd yn angenrheidiol i aros am benderfyniad y Cyngor ar y gwerth cyn y gellid drafftio’r protocol.

3.2 Cyflwynwyd Arweiniad drafft i’r Pwyllgor Safonau ar 9 Mawrth 2011 ac fe’i hystyriwyd yn fanwl. Gwnaethpwyd newidiadau/gwelliannau ac maent wedi cael eu hymgorffori yn y Protocol drafft sydd nawr yn cael ei gyflwyno yn **Atodyn 2**. Wedi ei atodi i’r Protocol mae ffurflen gyda’r pennawd “Datganiad gan Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig eu bod wedi derbyn Rhodd ac/neu Lletygarwch”. Atodir hon yn **Atodyn 3**.

**Argymhellion**

**1. Comisiynwyr**

Gofynnir i'r Comisiynwyr argymell i'r Cyngor ac i'r Gweinidogion Cymreig, sydd nawr hefo'r gallu i wneud penderfyniad i newid Cyfansoddiad y Cyngor:-

1.1 I gymeradwyo'r Protocol yn **Atodyn 2** a'r Ffurflen Datgan yn **Atodyn 3**;

1.2 Eu mabwysiadu yng Nghyfansoddiad y Cyngor yn 5.9;

1.3 I awdurdodi swyddogion i wneud unrhyw newidiadau ôl-ddilynol i'r Cyfansoddiad; a

1.4 Gwneud unrhyw argymhellion eraill i'r Cyngor a / neu y Gwenidogion Cymreig.

**2. Cyngor**

Gofynnir i'r Cyngor gefnogi argymhellion y Comisiynwyr i'r Gweinidogion Cymreig gan gynnwys cymeradwyo'r Protocol yn **Atodyn 2** a'r ffurflen Datgan yn **Atodyn 3**, eu mabwysiadu yng Nghyfansoddiad y Cyngor yn 5.9 ac awdurdodi swyddogion i wneud unrhyw newidiadau ôl-ddilynol i'r Cyfansoddiad.

**3. Y Gweinidogion Cymreig**

Gofynnir i'r Gweinidogion Cymreig ystyried argymhellion y Comisiynwyr a sylwadau'r Cyngor a gwneud penderfyniad i gymeradwyo'r Protocol yn **Atodyn 2** a'r Ffurflen Datgan yn **Atodyn 3** a'u mabwysiadu yng Nghyfansoddiad y Cyngor yn 5.9 ac awdurdodi swyddogion i wneud unrhyw newidiadau ôl-ddilynol i'r Cyfansoddiad.

**ATODYN / ATTACHMENT 2**

# 5.9 RHODDION A LLETYGARWCH

## PROTOCOL AR GYFER AELODAU AC AELODAU CYFETHOLEDIG

**Mabwysiadwyd y polisi hwn gan y Cyngor i roi arweiniad i Aelodau ynghylch derbyn a chofrestru rhoddion a lletygarwch.**

### 5.9.1 Rhagarweiniad

5.9.1(a) Mae derbyn rhoddion a lletygarwch gan Aelodau yn fwy na mater gweinyddol. Mae'n adlewyrchu'n uniongyrchol ar y canfyddiad am Aelodau ac am y Cyngor yn gweithredu er budd y cyhoedd yn hytrach nag er mantais bersonol ffrindiau neu deulu neu'r fantais bersonol y gall aelodau ei chael yn rhinwedd eu swyddi.

5.9.1(b) Mae'r gyfraith ar dderbyn rhoddion a lletygarwch wedi ei nodi yng Nghôd Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau ac yn y Deddfau Rhwystro Llygredd. Ychwanegir at y gofynion hyn gan y trefniadau y mae'r Awdurdod hwn wedi eu mabwysiadu, i ddarparu set glir o reolau i ddiogelu Aelodau a'r Cyngor fel ei gilydd. Gall derbyn rhodd neu letygarwch mewn modd sy'n tynnu'n groes i'r Côd, neu fethiant i ddatgan derbyn rhodd neu letygarwch, arwain at anghymwyso unigolyn i ddal swydd gyhoeddus am gyfnod o hyd at pum mlynedd. Gall derbyn rhodd neu letygarwch mewn modd llwgr olygu dirwy drom neu hyd at saith mlynedd mewn carchar.

### 5.9.2 Y Protocol hwn

5.9.2(a) Mae'r Protocol hwn yn ymwneud ag unrhyw gynnig, rhodd, ffafr neu letygarwch a wneir neu a roddir i chi yn rhinwedd eich swydd fel aelod. Nid yw'n fwriad i'r Protocol fod yn berthnasol i'r perthnasau cymdeithasol cyffredin y mae pobl yn eu mwynhau gyda ffrindiau, ar yr amod nad yw'r ffrind yn gwneud cais i'r Cyngor am rywbeth, yn ceisio gwneud busnes gyda'r Cyngor neu yn rhan o berthynas fusnes barhaus gyda'r Cyngor.

5.9.2(b) Mae'r Protocol hwn yn nodi'r egwyddorion y dylech eu dilyn pa bryd bynnag yr ydych yn gorfod penderfynu a fyddai'n briodol derbyn unrhyw rodd neu letygarwch, a threfn ar gyfer datgan unrhyw rodd neu letygarwch yr ydych yn ei dderbyn ac ar gyfer rhoi cyfrif i'r Cyngor am unrhyw rodd. Nid yw'r Protocol hwn yn ymwneud â derbyn unrhyw gyfleusterau neu letygarwch gall y Cyngor eu rhoi i chi. Mae'r drefn a nodir isod yn adlewyrchu'r hyn a fu'n arferiad bob amser yn y Cyngor hwn.

### 5.9.3 Egwyddorion Cyffredinol

Wrth benderfynu a yw'n briodol derbyn unrhyw rodd neu letygarwch dylech ddilyn yr egwyddorion isod:

5.9.3(a) Peidiwch byth â derbyn rhodd neu letygarwch fel anogaeth neu wobr am unrhyw beth yr ydych chi yn ei wneud fel Aelod neu fel ffordd o gael dylanwad.

Fel Aelod, rhaid i chi weithredu er budd y cyhoedd ac ni ddylai cynnig, y posibilrwydd o gynnig, anogaeth, gwobr neu ddiffyg anogaeth eich dylanwadu yn y modd yr ydydch yn cyflawni eich dyletswyddau..

Mae Deddf Cyrff Cyhoeddus (Troseddau Llwgr) 1889 yn dweud, os ydych yn derbyn rhodd, benthyciad, ffi, gwobr neu fantais o gwbl fel anogaeth neu wobr ar gyfer gwneud rhywbeth neu beidio â gwneud rhywbeth mewn perthynas ag unrhyw fater neu drafodyn y mae gan y Cyngor ran ynddo, rydych yn cyflawni trosedd y gellir eich dedfrydu i hyd at saith mlynedd o garchar amdani.

Ymhellach, mae Côd Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau yn dweud bod rhaid i chi weithredu er budd y cyhoedd gan wasanaethu'r Cyngor a'r gymuned gyfan, yn hytrach na gweithredu er budd unrhyw unigolyn penodol neu garfan o'r gymuned, a bod rhoi unrhyw fantais neu anfantais amhriodol i unrhyw berson, gan gynnwys chi eich hun, yn torri'r Côd.

5.9.3(b) Peidiwch byth â derbyn rhodd neu letygarwch os gallai gwneud hynny fod yn agored i'w gamddehongli.

Mae gallu'r Cyngor i lywodraethu yn dibynnu ar yr enw sydd ganddo o ran gweithredu'n deg ac er budd y cyhoedd. Ni ddylid derbyn rhoddion neu letygarwch a gynigir os yw'r amgylchiadau yn debygol o gael eu camddehongli gan aelod rhesymol o'r cyhoedd. Rhaid i chi felly ystyried a ellid dehongli derbyn y rhodd neu'r lletygarwch fel arwydd eich bod chi neu'r Cyngor yn ffafrio unrhyw berson, cwmni neu garfan benodol o'r gymuned neu fel eich bod yn cael eich rhoi dan rwymedigaeth amhriodol i unrhyw berson neu sefydliad. Os oes unrhyw bosibilrwydd y gellid ei ddehongli yn y fath fodd, rhaid i chi un ai wrthod y rhodd neu letygarwch neu gymryd camau priodol i sicrhau na all camddealltwriaeth o'r fath godi.

Mae rhai achlysuron yn arbennig o sensitif ac mae'n rhaid sicrhau na fydd cyfle yn codi o gwbl i gamddeall yn y fath modd. Mae'r rhain yn cynnwys:

(i) achlysuron lle mae'r Cyngor yn mynd trwy broses pwrcasu cystadleuol, mewn perthynas ag unrhyw arwydd o ffafriaeth i dendrwr penodol;

(ii) penderfynu ar geisiadau cynllunio neu bolisi cynllunio, mewn perthynas ag unrhyw berson neu sefydliad a fyddai ar eu hennill neu ar eu colled o'r penderfyniad.

(iii) penderfyniadau cyllido, pan fo'r Cyngor yn penderfynu ar geisiadau grant gan unrhyw berson neu sefydliad.

5.9.3(c) Peidiwch byth â derbyn rhodd neu letygarwch sy'n eich rhoi dan rwymedigaeth amhriodol.

Rhaid cydnabod bod rhai sefydliadau masnachol ac unigolion preifat yn gweld rhoddion a lletygarwch fel modd o brynu dylanwad. Os ydych yn derbyn rhodd neu letygarwch yn amhriodol, mae'n bosib y byddant yn ceisio defnyddio'r ffaith hwn i'ch perswadio i benderfynu ar fater o'u plaid. Yn yr un modd, os yw eraill yn nodi eich bod wedi bod yn fodlon derbyn rhodd

neu letygarwch yn amhriodol, fe allant deimlo na fyddwch mwyach yn gallu sicrhau ystyriaeth ddiduedd gan y Cyngor.

5.9.3(ch) Peidiwch byth â gofyn am rodd neu letygarwch.

Ni ddylech fyth ofyn neu wahodd cynnig o rodd neu letygarwch mewn perthynas â'ch swydd fel aelod ac eithrio lle mae'r Protocol hwn yn caniatáu i chi dderbyn y fath rodd neu letygarwch. Dylech hefyd fod yn ofalus i osgoi rhoi unrhyw arwydd y gallech fod yn agored i unrhyw gynnig amhriodol o'r fath.

5.9.3(d) Ni ddylech ond dderbyn lletygarwch os oes budd cymesur i'r Cyngor.

Yr unig reswm priodol ar gyfer derbyn lletygarwch yw lle mae budd cymesur i'r Cyngor ac/neu'r cyhoedd y mae'n ei gynrychioli.

Gall derbyn lletygarwch roi mantais gyfreithlon i'r Cyngor megis cyfle i fwrw ymlaen yn brydlon gyda busnes y Cyngor trwy ginio/swper gwaith ac ati neu i ganfasio a hyrwyddo budd y Cyngor a'i ardal mewn cyfarfod. Oni bai bod y budd i'r Cyngor yn glir ac yn gymesur gyda gwerth y lletygarwch, rhaid rhagdybio bod y lletygarwch yn unig ar gyfer eich budd personol chi.

Fel sydd wedi ei nodi uchod, mae Côd y Cyngor yn dweud na chaniateir i chi roi yn amhriodol unrhyw fantais i neb, gan gynnwys chi eich hun. Byddai derbyn lletygarwch fel Aelod, er eich budd neu eich mantais eich hun, yn hytrach nag er budd y Cyngor neu'r cyhoedd, yn torri'r Côd.

**5.9.4 Adrodd**

**A Rhoddion**

5.9.4(a)(i) Os ydych yn derbyn rhodd yr ydych yn amcangyfrif bod ei gwerth ar y farchnad neu'r gost o'i darparu yn £20 neu fwy mae'n rhaid i chi, cyn gynted ag y bo modd, a beth bynnag cyn pen 28 diwrnod i dderbyn y rhodd, wneud datganiad ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro. Bydd datganiad o'r fath yn cael ei gofnodi mewn cofrestr a fydd yn nodi dyddiad y datganiad, y dyddiad y derbyniodd yr Aelod y rhodd, enw'r Aelod, natur y rhodd a.y.y.b. Mae ffurflen i bwrpas cofnodi ar gyfer Aelodau ynghlwm wrth y Protocol hwn. Bydd y gofrestr hon ar gael i'w harchwilio'n gyhoeddus yn ystod tymor y Cyngor.

5.9.4(a)(ii) Hyd yn oed os yw gwerth y rhodd yn llai na £20, os ydych yn bryderus y gellid camddehongli ei derbyn ac yn arbennig os yw'n dod o du contractwr neu dendrwr, gellwch wneud datganiad gwirfoddol yn yr un modd i sicrhau nad oes dim wedi ei guddio neu'n ddichellgar o ran y rhodd.

5.9.4(a)(iii) I osgoi amheuaeth nid oes rhaid datgan cynnig o rodd yr ydych wedi ei gwrthod.

**B. Lletygarwch**

5.9.4(b)(i) Os ydych yn derbyn lletygarwch yr ydych yn amcangyfrif bod ei werth ar y farchnad neu'r gost o'i ddarparu yn £20 neu fwy mae'n rhaid i chi, cyn gynted ag y bo modd, a beth bynnag cyn pen 28 diwrnod i dderbyn y lletygarwch, wneud datganiad ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro. Bydd datganiad o'r fath yn cael ei gofnodi mewn cofrestr a fydd yn nodi dyddiad y datganiad, y dyddiad y derbyniodd yr Aelod y lletygarwch, enw'r Aelod, natur y lletygarwch a.y.y.b. Mae ffurflen i bwrpas cofnodi ar gyfer Aelodau ynghlwm wrth y Protocol hwn. Bydd y gofrestr hon ar gael i'w harchwilio'n gyhoeddus yn ystod tymor y Cyngor.

5.9.4(b)(ii) Hyd yn oed os yw gwerth y lletygarwch yn llai na £20, os ydych yn bryderus y gellid camddehongli ei dderbyn ac yn arbennig os yw'n dod o du contractwr neu dendrwr, gellwch wneud datganiad gwirfoddol yn yr un modd i sicrhau nad oes dim wedi ei guddio neu'n ddichellgar o ran y lletygarwch.

5.9.4(b)(iii) I osgoi amheuaeth nid oes rhaid datgan cynnig o letygarwch yr ydych wedi ei wrthod.

### 5.9.5 Rhoddion i'r Cyngor

Gall rhoddion i'r Cyngor fod ar ffurf darparu tir, nwyddau neu wasanaethau, un ai i gadw neu i brofi gyda golwg ar brynu yn y dyfodol, neu gynnig i wneud gwaith neu noddi swyddogaeth a drefnir neu a gefnogir gan y Cyngor. Ni ddylech ofyn am unrhyw rodd o'r fath ar ran y Cyngor ac eithrio lle mae'r Cyngor wedi nodi'n ffurfiol y cyfle i barti allanol gymryd rhan a sut y bydd hynny'n digwydd, er enghraifft mewn perthynas â noddi perfformiadau cerddorol a theatraidd cyhoeddus a chyfraniadau datblygwyr dan Gytundebau Adran 106. Os ydych yn cael cynnig o'r fath ar ran y Cyngor, rhaid i chi roi gwybod i'r Swyddog Monitro amdano ar unwaith. Bydd y Swyddog Monitro wedyn yn ysgrifennu at y person neu'r sefydliad sy'n gwneud y cynnig i gofnodi eich bod un ai yn derbyn neu'n gwrthod y rhodd, yn cofnodi'r rhodd i bwrpas archwilio a sicrhau bod y rhodd wedi ei weithredu'n gywir er budd y Cyngor Os oes gennych unrhyw bryderon am gymhellion y person neu'r sefydliad sy'n gwneud y cynnig, neu ynghylch a fyddai'n briodol i'r Cyngor dderbyn y rhodd, dylech hysbysu'r Swyddog Monitro ar unwaith.

### 5.9.6 Diddordebau sy'n rhagfarnu

Rhaid i chi fod yn ymwybodol y gall derbyn rhodd neu letygarwch fod yn ddiddordeb sy'n rhagfarnu ac y byddai'r rheolau yn y Côd mewn perthynas â diddordebau sy'n rhagfarnu yn berthnasol. Hynny yw, efallai y byddai'n rhaid i chi ddatgan y diddordeb, gadael yr ystafell pan fyddai'r mater yn cael ei drafod a pheidio â chymryd rhan mewn unrhyw ffordd yn y drafodaeth/proses gwneud penderfyniad.

### 5.9.7 Diffiniadau

5.9.7(a) Mae "rhodd neu letygarwch" yn cynnwys:

(i) nwyddau neu wasanaethau am ddim;

(ii) y cyfle i gael nwyddau neu wasanaethau am bris is neu ar delerau sy'n fwy manteisiol na'r rheini sydd ar gael i'r cyhoedd;

(iii) y cyfle i gael unrhyw nwyddau neu wasanaethau nad ydynt ar gael i'r cyhoedd.

(iv) cynnig o fwyd, diod, llety neu adloniant, neu'r cyfle i fynychu unrhyw ddigwyddiad diwylliannol, chwaraeon neu adloniadol.

5.9.7(b) Mae cyfeiriadau at "werth" neu "gost" unrhyw rodd neu letygarwch yn gyfeiriadau i'r uchaf o:

(i) eich amcangyfrif o gost darparu'r rhodd neu'r ystyriaeth i'r person neu'r sefydliad.

(ii) y pris ar y farchnad agored y byddai'n rhaid i'r aelod o'r cyhoedd ei dalu am y rhodd neu'r lletygarwch, pe bai ar gael yn fasnachol i'r cyhoedd, llai unrhyw swm arian ar ffurf unrhyw gyfraniad y byddai'n rhaid i chi ei wneud tuag at y pris hwnnw i'r person neu'r sefydliad sy'n darparu neu'n cynnig y rhodd neu'r lletygarwch.

5.9.7(c) Dehonglir rhodd o £20 neu letygarwch o £20 fel cyfanswm o £20 y flwyddyn gan yr un unigolyn neu sefydliad.

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

# DATGANIAD GAN AELODAU AC AELODAU CYFETHOLEDIG EU BOD WEDI DERBYN RHODD AC/NEU LETYGARWCH

Darllenwch y Canllawiau isod a nodir yn y Protocol ar Roddion a Lletygarwch yn 5.9 yng Nghyfansoddiad y Cyngor os gwelwch yn dda ac yna cwblhewch y manylion isod:

| | |
|---|---|
| Enw'r Aelod/Aelod Cyfetholedig | |
| Enw'r Rhoddwr/Darparwr | |
| Disgrifiad o'r rhodd neu'r lletygarwch | |
| Gwerth/amcangyfrif o werth y rhodd/lletygarwch | |
| Pryd a lle derbyniwyd y rhodd/lletygarwch | |
| Oedd unrhyw amgylchiadau arbennig sy'n cyfiawnhau derbyn y rhodd neu'r lletygarwch hwn? | |
| A oes gennych unrhyw gyswllt gyda'r person neu'r sefydliad sy'n rhoi'r rhodd neu'r lletygarwch un ai yn eich swyddogaeth fel cynghorydd neu fel arall? Rhowch fanylion os gwelwch yn dda | |
| Manylion am unrhyw gontract y mae gan y rhoddwr/darparwr diddordeb i'w sicrhau | |
| Sylwadau ychwanegol (os o gwbl) | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |